GRANT CYNULLEIDFAOEDD NEWYDD CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Am beth rydyn ni'n chwilio:

Mae Cymru Greadigol (rhan o Lywodraeth Cymru) wedi rhoi cronfa o £400,000 i ni i gryfhau ac amrywio'r ddarpariaeth yr ydym yn ei chefnogi i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Hoffem glywed gennych, yn arbennig os ydych â diddordeb mewn cyhoeddi yng Nghymru neu yn credu y gallwch chi ein helpu i:

- ddatblygu awduron, darlunwyr neu gyfranwyr newydd o gefndiroedd diwylliannol amrywiol o Gymru neu grwpiau a dangynrychiolir yng Nghymru, a rhoi'r cymorth a'r cyfleoedd y gallai fod eu hangen arnynt i gael eu cyhoeddi yng Nghymru (mewn llyfrau, cylchgronau neu ffyrdd newydd);

- dargedu cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru, creu deunydd gwreiddiol a/neu ddefnyddio cyfryngau neu fformatau nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd;

- sefydlu busnes cyhoeddi neu gyhoeddiad a fydd yn cryfhau ac amrywio'r diwydiant cyhoeddi fel y mae ar hyn o bryd yng Nghymru.

Byddwn yn croesawu ceisiadau sy'n helpu i gyrraedd yr amcanion hyn os ydych yn cyhoeddi llyfrau neu gylchgronau yn barod. Mae'r grantiau yma yn rhoi blaenoriaeth i awduron a chynulleidfaoedd newydd ac nid i gynhyrchu'r llyfrau a'r cylchgronau eu hunain. Mae gennym grantiau eraill ar gyfer hynny, ac mae croeso i chi eu trafod gyda ni unrhyw bryd.

Y grantiau sydd ar gael:

- Ceisiadau Cyflym – Hyd at £10,000
- Ceisiadau Sylweddol – £10,001 i £40,000

Yr uchafswm grant yw £40,000. Dim ond ceisiadau eithriadol fydd yn gymwys ar gyfer yr uchafswm. Gallwch ymgeisio am unrhyw swm– nid oes isafswm, ond bydd angen i chi ystyried a ydych yn gallu cyflawni'r gweithgaredd o fewn y gyllideb.

Pwy all ymgeisio?

Byddem yn hoffi clywed gennych os ydych:

1. yn gorff sydd â'u prif swyddfa a'i gweithrediad yng Nghymru, neu unigolyn sydd yn byw yng Nghymru. Os nad ydych chi wedi eich lleoli yng Nghymru – siaradwch â ni o flaen llaw fel eich bod yn gwneud y defnydd gorau o'ch amser,
2. yn fusnes, elusen neu'n sefydliad nid-er-elw wedi eich lleoli yng Nghymru,
3. yn unigolyn sydd yn byw yng Nghymru ac sydd wedi eu cofrestru fel person hunangyflogedig gyda Chyllid a Thollau EF. Nid yw ceisiadau ar gyfer hunan gyhoeddi yn gymwys.
4. yn datblygu busnes, rhwydwaith neu brosiect yn Nghymru sydd yn cefnogi'r prif nod ar dudalen 1,

Dim ond un cais ddylech chi gyflwyno. Nid yw gwasgnod o fewn cyhoeddwr yn gallu ymgeisio ar wahân, oni bai fod y gweithgaredd yn wahanol (e.e. llyfrau a chylchgronau). Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried eu holl weithgaredd o fewn un busnes, a chynnig prosiect sydd falle yn delio gyda mwy nag un elfen o gynulleidfaoedd newydd.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar y cyd ond bydd angen i un partner arwain.

Rydym eisiau i'r broses hon fod mor gyflym a hawdd â phosibl, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen mwy o gefnogaeth i ysgrifennu'ch cais, cysylltwch â ni ar post@llyfrau.cymru a byddwn yn ymateb i'ch ymholiad cyn gynted â phosibl.

Beth sydd yn gymwys?

Gall eich cais ariannu unrhyw beth sydd yn gysylltiedig gyda chyflawni eich prosiect, cyn belled a bod goblygiadau cyflogaeth / hunangyflogaeth wedi cael eu hystyried. Er nad oes Treth ar Werth ar y grant, mae'r grant yn rhan o'ch incwm trethadwy, ac felly angen ei gynnwys fel rhan o'ch incwm personol (unigolyn neu fusnes).

Os ydych yn cyflogi pobl fel rhan o'r prosiect, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl oblygiadau cyflogaeth yn cael eu cyflawni gan gynnwys talu isafswm cyflog. Os ydych yn gwneud taliadau i unigolion, ystyriwch effaith hynny ar eu sefyllfa treth a budd-daliadau. O wneud cais, rydych yn derbyn cyfrifoldeb arnoch chi fel ymgeisydd, ac nid yw'r Cyngor Llyfrau yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am gynghori na gwirio sefyllfa cyflogaeth y rhai sydd yn cymryd rhan.

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau am arian cyfalaf, felly mae prynu offer, asedau neu adeilad yn anghymwys.

Pa gwestiynau sy'n rhaid i chi eu hateb?

Dylech gwblhau'r cais ar linc SurveyMonkey gan ateb y cwestiynau isod:

Cais syml (am symiau o dan £10,000)

- Enw'r ymgeisydd.
- E-bost cyswllt ar gyfer y cais.
- Beth yw'r prosiect? Rhowch fanylion sut mae'r prosiect yn ymwneud â'r byd cyhoeddi ac yn cyflwyno'r byd cyhoeddi i Gynulleidfaoedd Newydd.
- Pwy sydd yn cael budd o'r prosiect? Rhowch fanylion y rhai rydych yn meddwl fydd yn cymryd rhan. A yw'r prosiect ar gyfer ardal ddaearyddol benodol?
- Beth yw cost y prosiect? Nodwch fanylion eich costau a faint o gyfraniad rydych chi ei angen o'r gronfa hon?
- Beth fydd effaith y prosiect hwn yn y tymor hir? A fydd yn newid eich ffordd o weithio? A fydd y gwaith, neu rannau o'r gwaith yn gallu parhau?

Cais manwl (am symiau dros £10,000)

- Enw'r ymgeisydd.
- E-bost cyswllt ar gyfer y cais.
- Beth yw'r prosiect ac ym mha ardal ddaearyddol fydd y gwaith yn digwydd?
- Pwy fydd yn rheoli'r prosiect a sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr fod y prosiect yn cadw at amser ac yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus?
- Pwy sydd yn cael budd o'r prosiect? Rhowch fanylion y rhai rydych yn meddwl fydd yn cymryd rhan.
- Beth yw cost y prosiect, nodwch fanylion eich costau a faint o gyfraniad rydych chi ei angen o'r gronfa hon?
- Darparwch gyfrifon hanesyddol mwyaf diweddar y busnes (atodiad)
- A ydych chi wedi ymgeisio i unrhyw gronfeydd eraill?
- Nodwch pa risgiau sydd na fyddwch yn gallu cyflawni'r prosiect?
- Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael i chi gyflawni'r prosiect o ran unigolion, gwirfoddolwyr, Bwrdd / pwyllgor neu unrhyw rai eraill all gynnig cyngor i chi?
- Darparwch unrhyw lythyr o gefnogaeth gan gyrff eraill i'r prosiect hwn (atodiad).
- Beth fydd effaith y prosiect hwn yn y tymor hir? A fydd yn newid eich ffordd o weithio? A fydd y gweithgaredd, neu elfennau o'r gweithgaredd yn gallu parhau?

Amserlen

Bydd y broses ar agor o **ddydd Gwener 28 Ebrill 2023**. Dylid cyflwyno ceisiadau ar-lein erbyn hanner dydd, **dydd Mercher 31ain o Fai 2023**.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

1. Bydd y broses yn agored ar gyfer ceisiadau o **ddydd Gwener 28ain o Ebrill 2023**. Rhaid cyflwyno Wedi'r dyddiad cau, bydd y Cyngor Llyfrau yn anfon e-bost atoch yn cydnabod eich cais.
2. Byddwn yn penderfynu a ydych yn gymwys drwy ystyried y wybodaeth yr ydych wedi ei rhannu gyda ni.
3. Os bydd angen, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn i chi egluro rhannau o'ch cais.
4. Bydd ceisiadau cymwys yn mynd at y Panel Dyfarnu i'w hystyried ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, ac fe fydd yn argymell swm i'w ddyfarnu. Rydym yn gobeithio penderfynu ar y grantiau o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau yn gwneud hyn yn anodd, byddwn yn cysylltu â chi i drafod amserlen newydd.
5. Unwaith y bydd eich cais wedi ei gytuno, byddwn yn anfon llythyr cynnig i chi. Mae'n bosibl y bydd ar gyfer y swm llawn, ond rydym yn cadw'r hawl i gynnig llai na'r hyn oedd yn y cais.
6. Pan fyddwch wedi arwyddo eich bod yn derbyn y cynnig, byddwn yn talu'r grantiau llai ar unwaith ac yn talu'r grantiau mwy mewn rhannau dros gyfnod y prosiect.
7. Byddwn yn gofyn am adroddiad ar ôl chwe mis neu flwyddyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am adroddiadau amlach ar gyfer grantiau mwy.
8. Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan mewn unrhyw werthusiad a digwyddiad yn hyrwyddo rhaglen Cynulleidfaoedd Newydd (os yw'r gofyniad yn rhesymol).

Os byddwch yn aflwyddiannus, bydd y penderfyniad hwn yn derfynol, ond gallwch gwyno os ydych yn poeni na wnaethom ddilyn y broses gywir wrth ymdrin â'ch cais.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych eisiau trafod y cynllun ymhellach, cysylltwch ar post@llyfrau.cymru a byddwn yn falch o helpu.

Byddwn yn ceisio ateb eich cwestiynau cyn gynted â phosibl. Os ydych eisiau i ni eich ffonio chi, rhowch eich rhif yn yr e-bost a byddwn yn eich ffonio'n ôl.

Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth y byddwch yn ei rhannu yn llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwn yn darganfod bod y wybodaeth yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd, efallai y bydd gofyn i ni hawlio'r grant yn ôl neu gymryd camau eraill os bydd angen.

Rhyddid Gwybodaeth

Rydym am fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym yn gwario arian cyhoeddus a sut rydym yn penderfynu ar grantiau. Er nad ydym yn awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gan fod ein harian yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru efallai y bydd disgwyl yn ôl y gyfraith i ni ddarparu eich cais a'n hasesiad ohono i aelodau'r cyhoedd sy'n gofyn am fynediad o dan y Ddeddf. Ni fyddwn yn rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n dod o dan unrhyw un o eithriadau'r Ddeddf. Ewch i wefan yr ICO i gael rhagor o wybodaeth a manylion am yr eithriadau. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r symiau a ddyfarnwyd o'r gronfa hon yn ein cyfrifon blynyddol.

I wneud cwyn

Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym yn trin eich cais, gallwch ofyn am gopi o'n Proses Gwyno. Sylwch mai dim ond os ydych chi'n credu nad ydyn ni wedi dilyn ein proses wrth drafod eich cais y gallwch gwyno. Ni allwch ddefnyddio'r drefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Diogelu Data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Y rheini sy'n rheoli sut rydym yn casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau yn y cyd-destun hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth yn ein polisi preifatrwydd. Ni fyddwn yn datgelu data personol na data personol sensitif (fel maen nhw'n cael eu diffinio yn y Rheoliadau) heb eich caniatâd oni bai bod dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

28/04/2023